



LLAIS Y TENANT AR GYNHESRUYDD FFORDDIADWY AC EFFEITHLONRUYDD YNNI

CRYNODEB WEITHREDOL

2025

Awdur
Akshita Lakhiwal

Cefnogwyd gan
David Wilton

Hyrwyddwyd gan
Eleanor Speer



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government



NODDWR LLAIS Y TENANT

Neges gan David



David Wilton
Prif Weithredwr, TPAS Cymru

”

Yn wyneb camwybodaeth newid hinsawdd, rhaid inni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig –cynhesrwydd fforddiadwy. Gyda 70% o denantiaid yn ei chael hi'n anodd gwresogi eu cartrefi a'r rhan fwyaf o eiddo o dan fand EPC C, nid yw diffyg gweithredu yn opsiwn. Mae angen i ni uwchraddio ein stoc tai, hybu effeithlonrwydd ynni, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Trosolwg

Mae Cymru ar y llwybr i gyrraedd Sero Net erbyn 2050, gyda phwyslais cryf ar greu cartrefi ynni-effeithlon a sicrhau cynhesrwydd fforddiadwy i bob tenant. I lawer o denantiaid, nid yw'r her yn ymwneud â lleihau allyriadau carbon—mae'n ymwneud â chael cartref cynnes, cyfforddus a chost-effeithiol sy'n diwallu eu hanghenion.


“Allwn ni ddim fforddio gwresogi ein cartrefi'n iawn, a phan rydyn ni'n gwneud hynny, mae'r gwres yn dianc trwy hen ffenestri.”
— Sylw tenantiaid o'r arolwg

Mae polisiau datgarboneiddio yn trawsnewid tai ledled Cymru, gyda mentrau fel y Rhaglen Ôl-osod Optimeiddiedig a Safon Ansawdd Tai Cymru yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, i denantiaid, y cwestiwn allweddol yw: A yw'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu bywydau bob dydd?

Mae'r adroddiad hwn yn dod â lleisiau tenantiaid i flaen y gad, gan archwilio eu profiadau a'u pryderon

O ble mae'r ymatebwyr?

Representation from all around Wales



01

Ymatebion fesul Rhanbarth

Fel mewn arolygon blaenorol ac yn unol â dosbarthiad cyffredinol y stoc tai yng Nghymru, daeth y nifer uchaf o ymatebion o Dde Ddwyrain Cymru (37%) a De Orllewin Cymru (26%).

O ran dosbarthiad oedran, roedd yr ymatebwyr ieuengaf—y rhai o dan 45 oed—yn bennaf o Dde-ddwyrain Cymru.

02

Ymatebion yn ôl Oedran

Mae dadansoddiad oedran yr ymatebwyr yn dangos cynrychiolaeth gref o ddemograffeg hŷn, wedi'i gyrru'n bennaf gan denantiaid tai cymdeithasol. Mewn cyferbyniad, roedd rhentwyr preifat wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal ar draws grwpiau oedran. Fodd bynnag, bu gwelliant o gymharu â'r llynedd, gydag ymatebion o'r grŵp oedran 30-45 yn cynyddu 3% a'r grŵp oedran 18-30 yn cynyddu 5%.

03

Math o Denantiaeth

Eleni, cawsom 22% o ymatebion gan denantiaid mewn Awdurdodau Lleol, tenantiaid Cymdeithasau Tai 62%. Yn y cyfamser, roedd 12% o'r ymatebwyr o'r Sector Rhentu Preifat (SRhP).

03

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

CIPOLWG CYFLYM AR YR HYN A DDYWEDODD TENANTIAID

Mae fforddiadwyedd gwresogi ar lefel argyfwng, gyda 70% o denantiaid yn dweud eu bod yn cael trafferth fforddio eu costau gwresogi



Yn wahanol i'r llynedd, lle'r effeithiwyd fwyaf ar rentwyr hŷn (60+), mae data eleni'n dangos symudiad – mae tenantiaid iau (18-45) a rentwyr BAME (83%) bellach yn wynebu'r lefelau uchaf o anfforddadwyedd. Mae hyn yn amlygu baich ariannol cynyddol ar y grwpiau hyn.

21%

Mae ymwybyddiaeth EPC wedi gostwng o 29% i 21%. Roedd y gostyngiad mwyaf ymhlith pobl 18-30 oed (o 43% i ddim ond 14%).

Mae'r rhan fwyaf o denantiaid yn canfod sgôr EPC eu cartref yn gywir, ond mae rhai yn anwybodus.

82%


yn nodi eu Tystysgrif Perfformiad Ynni yn gywir, tra bod 14% yn ei oramcangyfrif (gan gredu bod eu cartref yn fwy effeithlon nag y mae) a 4% yn ei danamcangyfrif.



Mae'r newid o wresogi nwy i drydan yn bryder mawr, gyda thenantiaid yn poeni am gostau uwch, toriadau pŵer, a diffyg dewis – yn enwedig mewn tai cymdeithasol, lle mae llawer yn teimlo eu bod wedi'u cau allan o wneud penderfyniadau



Mae ffenestri ac inswleiddio yn parhau i fod yn bryder mawr i denantiaid. Dywedodd llawer fod drafftiau, colli gwres, a ffenestri hen ffasiwn, wedi'u selio'n wael, yn faterion o bwys. Cyfeiriodd adborth tenantiaid dro ar ôl tro at aneffeithlonrwydd strwythurol – nid costau gwresogi yn unig – fel ffactorau allweddol sy'n cadw cartrefi'n oer ac yn anfforddiadwy i'w gwresogi



Dim codiadau rhent ar gyfer cartrefi aneffeithlon

81%

o denantiaid (a 97% o rentwyr preifat) yn dweud na ddylai landlordiaid godi rhent ar gartrefi gradd EPC E neu is nes bod y cartrefi hynny wedi eu gwella. Mae hyn yn amlygu'r disgwyliad y bydd landlordiaid yn cymryd cyfrifoldeb am wneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon cyn cynyddu costau i denantiaid.



CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

CIPOLWG CYFLYM AR YR HYN A DDYWEDODD TENANTIAID



Amheuaeth ynghylch codiadau rhent ar gyfer cartrefi ynni-effeithlon

Er bod gwella effeithlonrwydd ynni yn flaenoriaeth, dim ond 27% o denantiaid sy'n cefnogi talu rhent uwch am gartrefi gyda chyfraddau EPC gwell. Mae llawer yn parhau i fod heb eu hargyhoeddi y byddai unrhyw arbedion mewn biliau ynni yn drech na'r cynnydd mewn rhent, gan adlewyrchu pryderon ehangach am fforddiadwyedd ac ymddiriedaeth yn y farchnad rentu.

Nid yw tenantiaid yn gweld arbedion ariannol clir

ar ôl gwelliannau effeithlonrwydd ynni. Dim ond 18% a nododd filiau ynni is, tra nad oedd 52% yn gweld unrhyw wahaniaeth, ac roedd 30% yn ansicr. Rhentwyr hŷn (60+) ac ymatebwyr BAME (25%) a adroddodd yr arbedion uchaf, gan awgrymu bod angen cyfathrebu cliriach ar fanteision cost hirdymor uwchraddio effeithlonrwydd ynni.

Noder: Oherwydd y gwahaniaeth pris rhwng nwy a thrydan, efallai na fydd arbedion uniongyrcholwastad yn amlwg. Yn ogystal, gall costau uned a thaliadau sefydlog am drydan effeithio ymhellach ar fforddiadwyedd cyffredinol, gan ei gwneud yn anoddach i denantiaid weld buddion ariannol uniongyrchol.

Diffyg dewis

Er y gall graddfeydd EPC ddylanwadu ar fforddiadwyedd a chostau ynni hirdymor, mae gan lawer o denantiaid - yn enwedig mewn tai cymdeithasol ddewisiadau cyfyngedig wrth ddewis cartref. Mae'r ymatebion yn amlygu prinder tai, cyfyngiadau fforddiadwyedd, ac mae'r risg o ddigartrefedd yn aml yn drech na'r pryderon ynghylch effeithlonrwydd ynni. Fel y dywedodd un tenant ...

“ Nid yw dewis yn opsiwn pan yn wynebu digartrefedd. ”

ARGYMHELLION

Cyd-ddylunio

Dylai landlordiaid a thenantiaid gydweithio i greu map ffordd ar gyfer cyfathrebu am SATC, Sero Net, cynhesrwydd fforddiadwy. Gellir adeiladu'r cynllun hwn ar yr arferion gorau o fewn a thu allan i'r sector.



Newid Ffocws


Dylai polisïau Net Sero nid yn unig anelu at welliannau effeithlonrwydd ond hefyd sicrhau bod tenantiaid yn profi buddion diriaethol o ran cynhesrwydd, cysur a fforddiadwyedd. Mae hyn yn cynnwys sefydlogi rhent, rhyddhad costau uniongyrchol, a blaenoriaethu gwaith uwchraddio sydd mewn gwirionedd yn gostwng biliau.



Partneriaethau

Mae angen partneriaethau gyda sefydliadau cyfrifol i ddarparu cymorth technegol cynhwysfawr ac arweiniad clir i denantiaid ynghylch gosod mesuryddion clyfar a thechnolegau ynni-effeithlon eraill a'u manteision.

Materion Strwythurol



Creu Cyfleoedd

Trefnu weithdai neu seminarau rheolaidd sy'n canolbwyntio ar agweddau ymarferol ar gynhesrwydd fforddiadwy. Yn ogystal, creu cyfleoedd i denantiaid a staff ddysgu mwy am yr heriau sydd i ddod o ran datgarboneiddio tai.

Ymwybyddiaeth o EPC

O ystyried y dirywiad serth mewn ymwybyddiaeth EPC (yn enwedig ymhlith rhentwyr iau), mae'n rhaid i ddarparwyr tai sicrhau bod graddfeydd EPC a'u heffaith ariannol yn cael eu cyfathrebu'n glir ar y pwynt rhentu. Dylai polisïau annog landlordiaid i arddangos graddfeydd EPC mewn lle amlwg a rhoi arweiniad ar gostau gwresogi disgwylidig.

